## ATODLEN 8

### Gorfodi gofyniad i gymryd mesurau ataliol mewn mangre reoleiddiedig

**Hysbysiad gwella mangre**

**1.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad gwella mangre") i berson cyfrifol os yw'r swyddog yn ystyried—

(a) nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir ar y person gan reoliad 16 neu 17, a

(b) bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn sicrhau bod y person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

(2) Rhaid i hysbysiad gwella mangre—

(a) pennu'r fangre y mae'n ymwneud â hi;

(b) pennu'r mesurau y mae'n ei gwneud yn ofynnol eu cymryd er mwyn sicrhau bod y person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 16 neu 17;

(c) pennu terfyn amser y mae rhaid cymryd y mesurau oddi mewn iddo (na chaniateir iddo fod yn llai nag 48 awr sy'n dechrau â'r amser y dyroddir yr hysbysiad);

(d) rhoi manylion yr hawl i apelio a roddir gan baragraff 5.

(3) Yn yr Atodlen hon, mae i "person cyfrifol" yr ystyr a roddir gan reoliad 15(2).